# CYFARWYDDIADOL

Beth allech chi ei ddefnyddio fel is-benawdau yn lle'r ddau yma?

Ar gyfer pwy fyddai'r darn yma wedi cael ei ysgrifennu? Meddyliwch am resymau a thystiolaeth.

Meddyliwch am ffordd wahanol o ysgrifennu'r 3 phwynt cyntaf gan gadw'r bwriad o roi cyfarwyddiadau.



## Gwneud Dangosydd

Mae nifer o ddangosyddion asid ac alcali wedi eu gwneud o blanhigion. Yn yr arbrawf yma fe fyddwch yn gwneud dangosydd o fresych coch ac yn rhoi prawf ar asidau ac alcalïau.

### Byddwch angen

- Bresych coch
- Piped
- Siswrn
- Llosgydd Bunsen
- Bicer $250cm^3$
- Mat gwrth-wres
- Rhwyllen
- 3 tiwb profi
- Stand trybedd
- Dŵr tap
- Daliwr tiwbiau profi
- Dŵr distyll
- Toddiant dirgel
- Toddiant asid
- Toddiant alcali
- Sylweddau cartref

### Beth i'w wneud

1. Llenwch y bicer i'r lefel $100cm^3$ gyda dŵr.
2. Torrwch y bresych coch yn ddarnau mân gyda'r siswrn a'u rhoi yn y bicer.
3. Poethwch y bicer gan ddefnyddio'r fflam las ar eich llosgydd Bunsen.
4. Yn ofalus iawn trowch y bresych, a'i wasgu'n ysgafn gan ddefnyddio'r rhoden wydr.
5. Unwaith y bydd y dŵr wedi troi'n borffor tywyll, tynnwch oddi ar y gwres a gadewch i'r cymysgedd oeri.
6. Defnyddiwch biped i gymryd peth o'r hylif oer, porffor a'i ychwanegu i 2 i $3cm^3$ o asid mewn tiwb profi. Cofnodwch y lliw a welwch chi ar gefn y daflen waith yma.
7. Ychwanegwch beth at 2 i $3cm^3$ o ddŵr distyll mewn tiwb profi a chofnodwch y lliw.
8. Ychwanegwch beth at 2 i $3cm^3$ o alcali mewn tiwb profi a chofnodwch y lliw.
9. Rhowch 2 i $3cm^3$ o'r toddiant dirgel mewn tiwb profi a defnyddiwch y dangosydd i ddarganfod a yw'n asid neu'n alcali.
10. Profwch rai sylweddau cartref a gweithiwch allan a ydyn nhw'n asidau neu'n alcalïau. Defnyddiwch y tabl ar gefn y daflen waith yma i gofnodi'ch canlyniadau.




bang goes the theory

© BBC

Pa eirfa fyddech chi'n ei hystyried yn eirfa arbenigol?

Meddyliwch am eiriau sy'n dod o'r un bôn â'r geiriau canlynol. Dosbarthwch nhw mewn 3 colofn – Enw, Ansoddair, a Berfenw: arbrawf, coch, prawf, llosgydd, rhwyllen, profi, dŵr, toddiant, dirgel, asid.

Allech chi ddefnyddio gair arall yn lle **'gweithiwch allan'** ym mhwynt 10?

GwE
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government